**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 30 Hydref, 2017**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 2 Tachwedd, 2017. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 9 Tachwedd, 2017. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 10 Tachwedd, 2017.

**Presennol**: Y Cynghorwyr John Griffith, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery a Carwyn Jones

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Lewis Davies, Glyn Haynes, Eric Jones, G.O. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr R Dew and R G Parry OBE, FRAgS

(10:00 y. b. i 11:50 y. b.)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2017, fel cofnod cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion - Panel Rhiant Corfforaethol**<br>Amherthnasol |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD mabwysiadu cofnodion drafft y cyfarfod o’r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2017.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaenraglen y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Flaen Raglen Waith am y cyfnod Tachwedd, 2017 i fis Mehefin, 2018 fel y'i chyflwynwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau trefniadau atebolrwydd a chynllunio ymlaen llaw** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Cynllun Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cytuno i'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2016/17 ac argymell ei fabwysiadu gan y Cyngor er mwyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â'r disgwyliadau statudol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cydymffurfio a gofynion statudol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Nag oes. Mater i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Strategaeth Gyfalaf 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Ail-gadarnhau egwyddorion y strategaeth gyfalaf a nodir ym mharagraff 3 yr adroddiad.**<br>• **Cadarnhau y bydd y cyllid ar gyfer rhaglen gyfalaf 2018/19 yn cael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a'r benthyca â chymorth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifiedig** |

| | |
|---|---|
| | **unrhyw dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir.**<br>• **Cadarnhau bod yr ymrwymiadau prosiect cyfredol (Tabl 5 yr adroddiad) a'r cyllid ar gyfer adnewyddu/uwchraddio asedau cyfredol ar gyfer 2018/19 fel y gwelir yn Nhabl 6 yr adroddiad, yn amodol ar gynnwys £250k yn ychwanegol i'w ryddhau yn 2018/19 o'r gronfa gyfalaf wrth gefn i'w ddyrannu i Brosiectau Buddsoddi i Arbed.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I alluogi'r Cyngor i benderfynu ar raglen gyfalaf am 2018/19.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Tai Gofal Ychwanegol, Seiriol – Ymgysylltu**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd bod cyfnod o ymgysylltu yn cael ei gynnal yn lleol yn ardal Seiriol yn ystod Tachwedd, 2017 mewn perthynas â'r materion canlynol:**<br>• **Datblygu tai gofal ychwanegol yn ardal Seiriol er mwyn darparu o leiaf 39 o fflatiau hunan-gynhaliol yn unol â modelau darpariaeth a gymeradwywyd yn genedlaethol.**<br>• **Y safle sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y datblygiad hwn yw safle cyfredol Ysgol Biwmares naill ai wedi ei gyd-leoli gydag ysgol wedi'i haddasu neu fel yr unig ddefnydd ar gyfer y tir hwn.**<br>• **Bod y Cyngor yn mynd ar ôl opsiynau i gyllido'r datblygiad drwy'r Cyfrif Refeniw Tai fel bod y datblygiad yn cael ei ychwanegu at y stoc dai yn y sir gan ddarparu llety hanfodol ar gyfer pobl hŷn.** |

| | |
|---|---|
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I fwrw ymlaen gyda'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol – Ymgynghoriad Anffurfiol**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Bod argymhelliad yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol yn ardal Seiriol yn cael ei weithredu.**<br>• **Awdurdodi Swyddogion y Gyfadran Dysgu Gydol Oes i fynd allan i ymgynghori'n statudol ar y cynigion dan sylw fel a ganlyn :**<br><br>• **Cau Ysgol Biwmares ac i rieni'r disgyblion sydd ar y gofrestr ar yr adeg pan fydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniad ddatgan eu dewis am naill ai Ysgol Llandegfan neu Ysgol Llangoed yn unol â'r polisi mynediad ysgolion.**<br>• **Adolygu dalgylchoedd presennol y dair ysgol gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau pan fydd Ysgol Biwmares yn cau.**<br>• **Adnewyddu Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan; ac**<br>• **Ystyried ffederaleiddio Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan ar ddiwedd y broses hon.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I fwrw ymlaen gyda'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Adolygiad o Berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC)**<br>Adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Derbyn Llythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol AGGCC a nodi ei gynnwys.**<br>• **Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu mewn ymateb i'r Llythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Ymateb i argymhellion y Rheoleiddiwr** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig ar gyfer Wylfa Newydd (CCA)**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Awdurdodi Swyddogion i gychwyn cyfnod ymgynghori cyhoeddus am gyfnod o 6 wythnos ynghylch Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer Gorsaf Niwcliar Newydd yn Wylfa ym mis Tachwedd, 2017.**<br>• **Cytuno bod y penderfyniad hwn yn un brys fel y diffinnir hynny ym mharagraff 4.5.6.10 o Gyfansoddiad y Cyngor fel na fydd modd galw'r penderfyniad i mewn am y rheswm a roddir yn yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I ymateb i newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth, ac i ddiweddariadau prosiect.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Nag oes. Mae'r eitem wedi'i heithrio rhag cael ei galw i mewn oherwydd ystyrir ei fod yn fater brys.** |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Adroddiad Blynyddol – Cyflawniadau yn erbyn y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Derbyn yr adroddiad cynnydd ar y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid ar gyfer 2016/17.**<br>• **Bod Aelodau Etholedig a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i chwarae rhan weithredol mewn perthynas â hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid a sicrhau bod gan yr holl denantiaid lais a rhan i'w chwarae mewn datblygiadau tai a chorfforaethol yn y dyfodol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Rhoi diweddariad ar gynnydd** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **14 Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant – Safle Llynnon**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Eitem wedi'i thynnu'n ôl.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |